

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i
Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate –
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/critical workers
Eich cyf / Your ref: LH

Dyddiad / Date: 25 Ionawr 2021

Annwyl Riant/Gofalwr

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r pandemig wedi effeithio cryn dipyn ar Ben-y-bont ar Ogwr. Gan hynny, rydym wedi gorfod cyfyngu ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y ddarpariaeth ar safle'n hysgolion er mwyn lleihau'r effaith y mae profion Covid-19 positif yn ei chael ar staff, disgyblion a'u teuluoedd.

Er bod y canllawiau'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried rhestr gweithwyr hanfodol Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n penderfynu ar gymhwysedd, a hynny ar sail eu sefyllfaoedd presennol.

Dyma sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn diffinio gweithwyr hanfodol ar hyn o bryd:

- pobl sy'n cael eu cyflogi gan y gwasanaethau 'golau glas', sy'n cynnwys staff rheng flaen y GIG, y gwasanaeth Ambiwlans, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub;
- athrawon a staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion;
- swyddogion carchar, a
- gweithwyr gofal cymdeithasol.

Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa a byddwn yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr os byddwn yn penderfynu newid meini prawf cymhwysedd Pen-y-bont ar Ogwr.

Gobeithio y bydd cyflogwyr yn gallu helpu'r awdurdod lleol i reoli'r feirws a'i atal rhag ymledu drwy ddangos dealltwriaeth a hyblygrwydd, a gweithio gyda'r gweithwyr hynny'n sy'n rhieni/gofalwyr i drafod ffyrdd o ddatrys problemau sy'n codi o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Sylwch fod darpariaeth ar y safle, yn yr ysgol, ar gael i helpu'r gweithwyr hanfodol hynny y mae'n rhaid iddynt fod **yn bresennol yn eu man gwaith, a dim ond os nad oes neb yn gweithio gartref ac yn gallu gofalu am y plentyn/plant.**

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwedd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Er mwyn neilltuo lle ar y safle i'ch plentyn, mae disgwyl i chi gadarnhau'r canlynol:

1. Nid oes neb ar aelwyd eich plentyn, gan gynnwys unrhyw swigen gymorth, wedi cael prawf COVID-19 positif.
2. Nid oes neb ar aelwyd eich plentyn, gan gynnwys unrhyw swigen gymorth, yn dangos symptomau COVID-19 ar hyn o bryd nac yn aros am ganlyniad prawf.
3. Hyd y gwyddoch, nid yw'ch plentyn wedi dod i gysylltiad â neb, gan gynnwys aelodau o'ch aelwyd chi, sydd wedi cael prawf COVID-19 positif, yn dangos symptomau COVID-19 neu'n aros am ganlyniad prawf.
4. Nid oes gan eich plentyn beswch newydd, parhaus.
5. Nid oes gan eich plentyn dwymyn na thymheredd uchel.
6. Nid yw gallu'ch plentyn i arosgi neu flasgu wedi newid.

Llawer o ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

**Cyfarwyddwr Corfforaethaol Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**